Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

Datganiad o Bolisi ynglŷn â Chludo Disgyblion rhwng 16 a 19 oed

1 Datganiad o Bolisi

Rydyn ni'n darparu cludiant dan gytundeb rhwng y cartref a'r ysgol/coleg i bob myfyriwr yn Rhondda Cynon Taf sy'n byw fwy na 2 filltir o'r ysgol neu'r coleg agosaf lle mae'r cwrs priodol yn cael ei gynnig.

Yn amlach na pheidio, byddwn ni'n darparu cludiant o gartref y myfyriwr o fannau codi penodol ar hyd y brif ffordd. (Mewn achosion pan fo'r myfyriwr yn byw mewn lle anghysbell, efallai byddai modd inni drefnu tacsi rhwng y cartref a'r man codi).

Does dim costau i fyfyrwyr sy'n bodloni meini prawf 2 filltir ac sy'n dilyn cwrs yn y sefydliad addysg agosaf lle mae'r cwrs perthnasol ar gael. Mae disgwyl i fyfyrwyr sy'n byw lai na 2 filltir o'r sefydliad addysg i drefnu'u cludiant eu hunain.

Os ydy myfyrwyr eisiau parhau dilyn cwrs astudio mewn sefydliad addysg sydd ddim yr un agosaf lle mae'r cwrs perthnasol ar gael, nhw fydd yn gyfrifol am drefnu'u cludiant.

2 Myfyrwyr a chanddyn nhw Anableddau a/neu Anghenion Addysgu

Mae hawl i fyfyrwyr a chanddyn nhw broblemau symud a/neu anghenion dysgu, sy'n ganlyniad i gyflwr meddygol dwys ai peidio, i gael cymorth gyda threfniadau cludiant rhwng y cartref a'r ysgol/coleg sy fwyaf priodol beth bynnag fo'r pellter. Mae gofyn bod achosion o'r fath yn cael eu hatgyfeirio ar gyfer sylw Gwasanaeth Materion Prif Ffrwd yr AALl i'w cymeradwyo. Rhaid bod adroddiad meddygol yn gefn i unrhyw atgyfeiriadau ar gyfer fyfyrwyr sydd heb ddatganiadau o Anghenion Addysg Arbennig.

3 Cymorth Ychwanegol i Fyfyrwyr a chanddyn nhw Anableddau a/neu Anghenion Addysgu

Mae darparwyr addysg yn cynnig amrediad o sesiynau hyfforddi a chymorth materion symudoledd/byw bywyd yn annibynnol yn unol ag anghenion dynodedig myfyrwyr unigol (e.e. Mae Gweithwyr Cymorth Cyfleoedd Cyrsiau Galwedigaethol gyda Choleg Morgannwg; ysgolion arbennig ac uwchradd yn y Fwrdeistref Sirol yn cael cymorth gan Wasanaeth Materion Prif

Ffrwd yr AALl, yn darparu hyfforddiant a chymorth mewn ffordd gyson a chydlynus i ddiwallu anghenion myfyrwyr).
Os bydd y darparwr addysg o'r farn ei bod hi'n briodol, mae trefniadau cludiant ar gyfer myfyrwyr a chanddyn nhw anableddau a/neu anghenion addysgu yn cynnwys cydymaith.

4 Meini Prawf

Does dim prawf modd i bennu p'un ai bod myfyrwyr yn gymwys i gael cludiant ai peidio. Meini prawf 2 filltir yw'r unig feini prawf sydd (ar wahân i fyfyrwyr a chanddyn nhw anableddau a/neu anghenion addysgu).

5 Mathau eraill o Gymorth

Mewn achosion lle mae seddi gwag ar gerbyd sy'n cludo disgyblion dan gytundeb gyda'r AALl mae'n bosibl byddai'r lleoedd gwag yn cael eu rhoi i fyfyrwyr sy heb yr hawl i gludiant am ddim am gost o £30 y tymor.

Mewn sawl rhan o'r fwrdeistref sirol, mae darparwyr addysg yn gwneud trefniadau ar y cyd ar gyfer myfyrwyr dros 16 oed. Bydd disgyblion ar y cyrsiau yma'n dal ar restr eu sefydliad eu hunain ac yn cael cludiant am ddim i ganolfannau'r sefydliadau partner.

Mae rhai darparwyr yn rhedeg eu gwasanaethau cludiant eu hunain neu'n eu trefnu drwy gytundeb. Mae hyn yn ychwanegol i'r gofynion cyfreithiol, a bydd y sefydliadau'n codi tâl am y gwasanaeth.

Mewn achosion eithriadol, lle na fyddai trefniadau eraill yn hyfyw neu'n gost-effeithiol, efallai byddai modd ad-dalu costau petrol.

Os yw trefniadau cludiant yn rhwystro pobl ifainc rhag manteisio ar gyfleoedd addysg, gwaith neu hyfforddiant, efallai bydd modd i Gwmni Gyrfa Cymru i gynnig cymorth i bobl ifainc trwy'i raglen Porth Ieuenctid (Youth Gateway). Byddai'r ddarpariaeth yma'n seiliedig ar asesu anghenion unigolion.

Mae Prifysgol Morgannwg yn darparu ystod o wasanaethau cymorth i fyfyrwyr, gan gynnwys prisiau gostyngol ar gyfer tocynnau bws, cludiant yn rhad ac am ddim (am gyfnod penodol yn unig) gyda rhai cwmnïau cludiant, prisiau gostyngol ar gyfer tocynnau trên, prisiau gostyngol ar gyfer prynu beic a chynllun rhannu ceir ar-lein. I gael rhagor o fanylion, galwch heibio i http://www.glam.ac.uk/travelplan.

Efallai gall Adran Addysg, Dysgu Gydol Oes a Medrau Llywodraeth Cynulliad Cymru roi cymorth ariannol i dalu costau teithio myfyrwyr sy'n cael hyfforddiant yn y gweithle.

6 Cyflwyno Cais am Gymorth gyda Chostau Cludiant

Does dim proses cyflwyno cais ffurfiol i fyfyrwyr. Mae ysgolion/colegau yn rhoi manylion y myfyrwyr hynny mae eisiau cludiant arnyn nhw, yn unol â'r polisïau a'r meini prawf i'r Cyngor.
Bydd tocynnau mantais y bysiau, ynghyd â phecynnau gwybodaeth sy'n cynnwys amserlenni y bysiau, mannau codi ac ati, yn cael eu hanfon i'r myfyrwyr hynny i gyd sy'n gymwys.

7 Myfyrwyr sy'n troi'n 19 oed ac sy'n dal i ddilyn cwrs

Bydd cludiant ar gael i fyfyrwyr sy'n bodloni'r meini prawf hyd at ddiwedd y flwyddyn academaidd ar ôl troi'n 19 oed. Mae trefniadau cludiant ynglŷn â mynychu'r cwrs wedi'r dyddiad hwnnw yn dibynnu ar y darparwr addysg.

8 Cymorth Materion Cludiant i Fyfyrwyr sy'n dilyn cwrs y tu allan i gylch Rhondda Cynon Taf

Mae gwasanaethau bysiau dan gytundeb neu docyn tymor ar gyfer gwasanaeth masnachol bws neu drên ar gael yn rhad am ddim i fyfyrwyr sy'n cael eu derbyn ar gwrs sydd ddim ar gael mewn ysgol/coleg yn Rhondda Cynon Taf.

9 Cymorth i Fyfyrwyr sy'n mynychu cyrsiau sydd tu hwnt i bellter teithio dyddiol

Os bydd myfyriwr yn mynychu cwrs mewn canolfan addysg sydd tu hwnt i bellter teithio dyddiol oherwydd bod dim cwrs tebyg ar gael yn fwy agos i'w gartref, byddwn ni'n rhoi ystyriaeth i faterion cymorth gyda chludiant (gan gynnwys ad-dalu costau petrol) yn seiliedig ar amgylchiadau myfyrwyr yn unigol.

10 Sicrhau Ansawdd a Thrafod Cwynion

Bydd Comisiynwyr Trafnidiaeth neu gorff addas arall, yn archwilio pob cerbyd ar hap, yn ôl y gofyn. Bydd y Cyngor yn trefnu haparchwiliadau ynglŷn â chytundebau - i ofalu bod y cwmnïau cludo'n parchu eu telerau yn y modd sy'n dderbyniol i'r Cyngor. Byddwn ni'n cynnwys mynegyddion cyflawniad yn amodau yn y cytundebau yn rhan o'r broses fonitro. Bydd y rhain, ymhlith pethau eraill, yn ymwneud â phrydlondeb ac â bodlonrwydd y clientiaid.

Byddwn ni'n ymchwilio i unrhyw gwynion sy'n dod i sylw'r Cyngor am y gwasanaethau neu'r cerbydau ar unwaith. Os bydd cŵyn yn cael ei chadarnhau, byddwn ni'n rhoi sylw ar unwaith i gymryd y camau angenrheidiol a phriodol yn unol â thelerau'r cytundeb.

11 Profiad Gwaith

Pan fo myfyrwyr yn cael lleoliad profiad gwaith yn rhan o gwrs, yn amlach na pheidio, cyfrifoldeb y myfyrwyr yw trefnu cludiant. Pan fo trefniadau tebyg wedi'u gwneud trwy gwmni Gyrfa Cymru, neu os bydd problemau o ran cyraedd lleoliad profiad gwaith, efallai bydd y darparwr addysg yn ad-dalu costau teithio.

12 Gwaith Ymgynghori

Rydyn ni wedi ymgynghori â Staff a Llywodraethwyr yr Ysgolion ynglŷn â'r datganiad o bolisi yma yn rhan o waith ymgynghori blynyddol statudol y Cyngor ynghylch polisi a threfniadau derbyn plant i'r ysgolion.

Yn yr un modd, mae ysgolion gwirfoddol cymorthedig ac awdurdodau lleol cyfagos (trwy Gylch Trafod Materion Derbyn Disgyblion Rhondda Cynon Taf) wedi bod yn rhan o'r gwaith ymgynghori yma.

Rydyn ni wedi ymgynghori â Chymdeithas Llywodraethwyr Rhondda Cynon Taf a Choleg Morgannwg ar wahân ynglŷn â datblygu'r polisi yma'n ogystal.

13 Argaeledd ac Hygyrchedd y Datganiad o Bolisi yma

Mae'r cyswllt i'r datganiad o bolisi yma ar gael dan adran "Dogfennau Pwysig" ar dudalen hafan gwefan y Cyngor.

Rydyn ni hefyd yn y broses o wneud trefniadau i ofalu bod y polisi hwn ar gael i fyfyrwyr, a'u rhieni/gwarcheidwaid, yn ystod Blwyddyn 11 yn yr Ysgolion Uwchradd ledled Rhondda Cynon Taf.

14 Dolennau Cyswllt ar gyfer gyfer Myfyrwyr sydd angen cymorth gyda Chludiant

Gwasanaeth Addysg a Dysgu Gydol Oes Rhondda Cynon Taf

Graham Thomas (01443 744041)

Graham.Thomas@rhondda-cynon-taff.gov.uk

Cyfadran y Gwasanaethau Amgylchedd Rhondda Cynon Taf (Uned Materion Cludiant y Cyngor)

Caroline.Harries (01443 494833)

caroline.j.harries@rhondda-cynon-taff.gov.uk

Coleg Morgannwg

Gwasanaethau i Fyfyrwyr (01443 662800)

www.morgannwg.ac.uk

Bro Dysg (Cyfungorff Rhondda Cynon Taf ar gyfer Addysg a Hyfforddiant)

Julia Carvell (01443 744000)

Julia.Carvell@rhondda-cynon-taff.gov.uk

Prifysgol Morgannwg

Gwasanaethau i Fyfyrwyr (01443 480480)

www.glam.ac.uk

Ffynonellau gwybodaeth eraill

Dechrau'r Ysgol – Llyfryn yr Awdurdod Addysg

Gwefan Rhondda Cynon Taf (www.rhondda-cynon-taf.gov.uk)

Gwefan Ednet Rhondda Cynon Taf (www.rctednet.net)

Llawlyfrau ysgolion a cholegau

Gwybodaeth a chyngor ynglŷn â gyrfaoedd

Uned Materion Cludiant y Cyngor – (01443 494700)

Traveline Cymru (www.traveline-cymru.org.uk)

Cwmnïau Bysiau – Manylion ynglŷn â chysylltu a chwmnïau bysiau i'w gael gan Uned Materion Cludiant Cyngor Rhondda Cynon Taf (01443 494700)

Nodiadau

Mae Awdurdod Addysg Lleol Rhondda Cynon Taf, ar y cyd â phartneriaid eraill sy ynglŷn â darparu addysg a hyfforddiant i bobl rhwng 16 ac 19 oed sy'n byw yn y fwrdeistref sirol wedi paratoi'r Datganiad o Bolisi yma ynglŷn â chludo disgyblion i'r ysgol.

Mae darpariaethau'r polisi yma i'w cymhwyso, gan fwyaf, i ddisgyblion sy'n dilyn cyrsiau yn y 19 o ysgolion uwchradd sydd gyda'r Awdurdod, yn ei phedair ysgol arbennig, ac yng Ngholeg Morgannwg.

Os bydd myfyrwyr sy'n bodloni'r gofynion yn mynychu cyrsiau astudio tu allan i'r fwrdeistref sirol mewn ffordd sy'n gyson â pholisi derbyn yr Awdurdod Addysg Leol, byddwn ni'n darparu cludiant iddyn nhw hefyd. (Mae hyn yn cynnwys Ysgol Gyfun Pen-coed i ddisgyblion sy'n byw yn y Dolau, Llanharan, a Brynna).

Mae myfyrwyr sy'n byw yn Rhondda Cynon Taf ac sy'n mynychu'r ysgolion canlynol hwythau'n cael cludiant yn unol â pholisi'r Awdurdod: Ysgol Uwchradd Gatholig Eglwys Rhufain yr Esgob Hedley, Merthyr Tudful; Ysgol Uwchradd Esgob Llandaf yr Eglwys yng Nghymru; Coleg Chweched Dosbarth Eglwys Gatholig Rhufain Dewi Sant, Caerdydd.

Fel arfer, fyddwn ni ddim yn darparu cludiant am ddim i fyfyrwyr sy'n dewis mynychu cyrsiau tu allan i Rondda Cynon Taf. Dau eithriad sydd i'r rheol yma. Bydd cludiant am ddim ar gael i'r myfyriwr os yw'r cwrs mae e eisiau'i astudio heb fod ar gael yn y fwrdeistref sirol, neu os yw canolfan y cwrs yn nes i'w gartref na'r campws agosaf o eiddo Coleg Morgannwg lle mae'r cwrs ar gael.

Ar hyn o bryd, rydyn ni'n darparu cludiant dan gytundeb er mwyn i fyfyrwyr gael mynychu cyrsiau o'r fath yng Ngholegau Merthyr Tudful, Ystrad Mynach, Pen-y-bont, a Phen-coed.

Mae cludiant (sef tocynnau tymor ar gyfer gwasanaethau masnachol bws neu drên) ar gael i fyfyrwyr sy'n dilyn cyrsiau astudio arbenigol sydd ddim ar gael yn Rhondda Cynon Taf (e.e Cwrs CGC mewn Peirianneg Awyrennau yn Ngholeg Addysg Bellach y Barri.)

(Mae'r datganiad o bolisi yma wedi'i baratoi yn unol â'r canllawiau hynny sy wedi eu pennu yng Nghylchlythyr Llywodraeth Cynulliad Cymru 05/2007 "Datganiadau Polisi Trafnidiaeth ar gyfer Dysgwyr rhwng 16 a 19 oed, 2007/08")